COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 26 EBRILL 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA Green | JR McCarthy | MJ Kearn | RMI Shaw |
| A Williams | AJ Williams | MC Clarke | A Hussain |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Lewis, B Sedgebeer a/ac RM Granville

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Jones | Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Helen Smith | Prif Archwilydd Mewnol |
| Mary Williams | Rheolwr Grŵp - Phrif Gyfrifydd |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| John Llewellyn | Arweinydd Tim Archwilio Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Sarah-Jane Byrne | Rheolwr Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru |

Aelod Lleyg:

Josephine Williams

45. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd JR McCarthy ddiddordeb arbennig yn eitem Agenda 8, yn rinwedd ei swydd fel Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr.

46. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio ar 18 Ionawr 2018 fel rhai gwir a chywir.

47. CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL YR ARCHWILIO ALLANOL 2017-18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a’i ddiben oedd cyflwyno Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Allanol 2017-18, ynghyd â rhestr o lofnodwyr grant awdurdodedig ar gyfer y Cyngor i’w nodi.

Amlinellwyd elfennau allweddol ymgysylltiad archwilio yr Ymchwilydd a benodwyd yn Atodiad A yr adroddiad,

Cadarnhaodd Mr. John Llewellyn o Swyddfa Archwilio Cymru mai diben y Cynllun oedd rhestru'r gwaith arfaethedig, pryd roedd e i'w wneud, faint y byddai'n costio ac yn olaf pwy oedd yn mynd i ymgymryd ag ef.

Dywedodd fod y Cynllun hefyd yn amlinellu Archwiliad Perfformiad, Ardystio Hawliadau a Dychweliadau Grant, yn ogystal â gwaith arall penodol y cymerwyd ag ef.

Wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad roedd y rhestr o lofnodwyr grant awdurdodedig er mwyn nodi dibenion.

Cyfeiriodd Mr Llewellyn yr Aelodau at dudalen 15 y Cynllun Archwilio ac Arddangosyn 2, a grynhodd mewn fformat tabl y risgiau archwilio ariannol allweddol a nodwyd ar gam cynllunio'r archwiliad, o ran gwariant ar fudd-daliadau tai, cysoniadau Banc, datgeliadau partïon perthynol a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Hefyd rhoddodd yr adran hon o Atodiad A ymatebion yr archwiliad arfaethedig i'r risgiau hyn a amlygir. Ychwanegodd fod hawliadau a brofwyd mewn perthynas â'r Cyfrifon Blynyddol Budd-Dal Tai wedi bod yn gadarnhaol o'u cymharu â phroses profi debyg yr ymgymerwyd â hi y llynedd, a ddatgelodd fod rhai hawliadau wedi'u prosesu'n anghywir. Ychwanegodd nad oedd archwiliad y Fargen Ddinesig yn faterol i gyfrifon 2017/18, er y byddai hyn lawer fwy perthnasol i gyfrifon 2018/19 gan fod projectau yn symud ymlaen fel rhan o'r fenter.

Nododd Aelod ei fod yn awyddus i archwiliad gael ei wneud gan y gwasanaeth Mewnol a Rennir, yn ogystal ag un sy'n cael ei wneud gan awdurdod blaen Cyngor Dinas Caerdydd a/neu Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Caerdydd, er mwyn sicrhau bod atebolrwydd yn cael ei ddangos gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel Awdurdod sy'n cymryd rhan gan ymwneud â chynllun y Fargen Ddinesig.

Wedyn aeth Sarah-Jane Byrne, sydd hefyd o Swyddfa Archwilio Cymru â'r Aelodau trwy weddill atodiadau'r adroddiad.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Aelodau'n nodi cynnwys Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Allanol 2017-18 a atodir yn Atodiad A i'r adroddiad a'r atodlen o lofnodwyr grant awdurdodedig a atodir ar Atodiad B.

48. <u>ARDYSTIO GRANTIAU A DYCHWELIADAU 2016-17</u>

Cyflwynodd Mark Jones a John Llewellyn o Swyddfa Archwilio Cymru adrodd ar y cyd ar ran y Prif Weithredwr, sydd â'r diben o gyflwyno adroddiad Archwilydd Allanol y Cyngor ar y gwaith grant yr ymgymerwyd ag ef am y cyfnod 2016-17.

Er mwyn rhoi gwybodaeth cefndir cadarnhaodd y Swyddogion y gofynnir i Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel archwilwyr a benodwyd gan y Cyngor, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, i ardystiol hawliadau grant mwy a wnaed gan y Cyngor. Ar gyfer 2016-17, gwnaethant archwilio 14 o hawliadau grant a dychweliadau, gyda gwerth cyfanswm o £123 miliwn (15 o hawliadau grant gyda gwerth cyfanswm o £121 miliwn yn 2015-16).

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o bob hawliad a dychweliad sy'n destun ardystio yn Atodiad A a atodir, ynghyd â'r ffi ardystio a canlyniad adolygiad yr Archwilydd Allanol.

Crynhodd paragraff 4.2 yr adroddiad y canlyniadau ardystio, a rhoddodd Swyddogion o SAC grynodeb o'r rhain er budd yr Aelodau. Cadarnhawyd bod y canlyniadau ardystion yn cymharu'n dda â chfartaledd Cymru gyfan.

Dywedwyd wrth aelodau bod dim ond un addasiad sylwedd a oedd o ganlyniad i gyfrifiad anghywir o'r Darpariaeth am Ddyled Drwg ar gyfer Ardollau Annomestig. Nodwyd fodd bynnag, bod hyn yn effeithio ar yr incwm i Lywodraeth Cymru ac nid ar unrhyw gyllid sy'n daliadwy i'r Cyngor. Arweiniodd effaith net yr addasiadau grant eraill ar gynnydd o £75 i'r Cyngor.

Wedyn cyfeiriwyd yr Aelodau i baragraff 4.4 o'r adroddiad, lle y gwnaeth yr Archwilwyr Allanol wedi gwneud 3 argymhelliad o ran y Ardystio Grantiau a Dychweliadau 2016-17.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y gwaith grant yr ymgymerwyd ag ef ar gyfer 2016-17, wedi'i atodi ar Atodiad A i'r adroddiad.

49. FFURFLEN CYMHORTHDAL BUDD-DAL TAI 2016/17

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 adroddiad, er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor o'r gweithgarwch gwirio a hyfforddi a wnaed hyd yn hyn, a chamau a gynllunnir ar gyfer 2018, er mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod archwiliad cymhorthdal Budd-Dal Tai 2016/17.

Fel gwybodaeth gefndirol, dywedodd bod yr archwiliad uchod wedi datgelu nifer o faterion prosesu a oedd wedi effeithio ar gywirdeb yr hawliad am gymhorthdal. Amlinellwyd y rhain ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 fod camau i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi dechrau yn ystod yr archwiliad a bod adrannau nesaf yr adroddiad, o baragraffau 4.2 i 4.17 yn rhoi manylion o'r problemau a brofwyd, a'r camau a gwblhawyd neu a gynlluniwyd ar gyfer 2018/19 er mwyn gwella cywirdeb y prosesau gwaith hyn yn y dyfodol.

Roedd y rhain mewn perthynas â meysydd canlynol Budd-daliadau Tai:-

- Arweiniad/hyfforddiant cyffredinol
- Materion rhent a nodwyd
- Pensiynau galwedigaethol/incwm a enillir a
- Phroses gwirio cymorthdaliadau

Rhoddwyd manylion am Gynllun Hyfforddi a ddyfeisiwyd i ganolbwyntio ar y materion penodol yn Atodiad 1, ac roedd Atodiad 2 yn cynnwys y cynllun gwirio lefel uchel yr ymgymerir ag ef ar gyfer hawliad cymhorthdal 2017/18.

Wedyn cwblhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 ei chyflwyniad trwy gyfeirio at oblygiadau ariannol yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod pam roedd gwall ar y lefel hon wedi'i ddatgelu ar yr adeg hon yn 2016/17, h.y. a oedd materion o ran capasiti gyda lefelau staffio yn yr adran ar y pryd neu unrhyw reswm/resymau a nodwyd gan y Swyddogion.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 y bu gostyngiad mewn lefelau staffio yn yr adran Budd-Dal Tai, fel y bu yn y rhan fwyaf o wasanaethau yn y Bwrdeistref Sirol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf , a byddai hyn wedi peri pwysau ychwanegol i staff. Fodd bynnag, roedd y prif broblemau yn yr adran Budd-daliadau Tai yn perthyn i wallau wrth gamddehongli'r system. Fodd bynnag, rhoddwyd prosesau gwirio llym ar waith bellach er mwyn sicrhau y câi'r math hwn o wall ei ddileu neu o leiaf ei leihau'n sylweddol yn y dyfodol oherwydd yr holl gynlluniau gwirio a gafodd eu rhoi ar waith neu a oedd yn y broses o gael eu rhoi ar waith. Ychwanegodd nad oedd y camgymeriadau a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi deillio o wallau esgeulus cyffredin.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

50. YMCHWILIADAU I DWYLL O RAN LLEIHAU'R DRETH GYNGOR: MIS EBRILL 2017 HYD AT FIS MAWRTH 2018

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 adroddiad, a roddodd wybod i'r Aelodau o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw yn ystod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018, mewn perthynas ag ymchwiliadau twyll o ran Lleihau'r Dreth Gyngor (CTR) Yn ogystal, crynhodd yr adroddiad y canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod 2017/18, o'i gymharu â'r sefyllfa o fis Tachwedd 2015 tan fis Mawrth 2017 (yn y bôn fel proses newydd, mae'r cyfnod hwn yn ymwneud â blwyddyn gyntaf ymchwiliadau CTR yn unig.)

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol, yn benodol wrth ystyried y Gwasanaeth Ymchwil Twyll Sengl, ac esboniodd fod y rhan fwyaf o'r Tîm Ymchwilio i Dwyll bellach wedi'i drosglwyddo i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) heblaw am un Swyddog Twyll a oedd wedi aros gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Wedyn cyfeiriodd at Dabl 1 ym mharagraff 4.3 yr adroddiad, a ddarluniodd ffynhonnell atgyfeiriadau twyll yn ystod yr adegau perthnasol a amlinellir yn y tabl hwn. Cafodd 41% o'r atgyfeiriadau twyll hyn eu cychwyn drwy ymarfer adolygu hawliad. Roedd y System Adolygu Hawliadau newydd ei chyflwyno wedi caniatáu'r Awdurdod i gael mynediad at fwy o wybodaeth am bobl a oedd o bosibl yn camddefnyddio hawliadau, na'r hyn a oedd yn wir o'r blaen.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 y cafodd bron 33% o'r atgyfeiriadau eu derbyn trwy'r cyhoedd, ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn perthyn i fudd-daliadau'r DWP neu Fudd-daliadau Tai. Ychwanegodd, yn ystod 2017/18, atgyfeiriodd Ymchwilydd Twyll y Cyngor 63 o achosion i'r DWP.

Darluniodd y Tabl(ie2) a ddangoswyd ym mharagraff 4.7 yr adroddiad ddadansoddiad o'r mathau ar honiadau a gafodd eu hatgyweirio yn ystod yr adeg yr amlinellwyd yn y tabl, ie mis Tachwedd 2015-mis Mawrth 2017.

Wedyn cadarnhaodd paragraff 4.9 o'r adroddiad, yn ystod 2017/18, cafodd 82 o achosion eu cau (o'u cymharu â 91 ar gyfer y cyfnod uchod), a rhoddwyd manylion am y categorïau cau yn Nhabl 3 yn y rhan hon o'r adroddiad.

Wedyn cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 at Dabl 4 ym mharagraff 4.11 yr adroddiad a ddarparwyd y CTR a mân arbedion o ran Budd-Dal Tai a gyflawnwyd o ganlyniad i'r ymchwiliadau i dwyll a gwblhawyd yn ystod yr adegau perthnasol.

Dangosodd Tabl 5 ym mharagraff 4.13 yr adroddiad y cosbau a'r dirwyon a ddosbarthwyd yn yr adeg berthnasol a ddangosir, ac yn ogystal â'r rhian, mae'r Ymchwilydd Twyll hefyd wedi codi cosbau gweinyddu sy'n dod i gyfanswm o £11,859 (£6,253 yn 2016/17), yn dilyn ymchwiliadau DWP i hawliadau am Fudd-Dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

51. ARCHWILIAD MEWNOL – ADRODDIAD ALLDRO TERFYNOL – MIS EBRILL 17 I FIS MAWRTH 18

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad, a gyflwynodd i'r Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Blynyddol y Cyngor sy'n seiliedig ar Risg am y flwyddyn o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019.

Wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad oedd y ddogfen Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft ar gyfer 2018/19. Dangosodd hon sut y caiff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu a'i ddatblygu, yn unol â'r Cylch Gorchwyl perthnasol a sut mae'n cysylltu ag amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor. Câi'r Strategaeth ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, sef y Pwyllgor Archwilio, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Archwilwyr Allanol a'r Uwch Reolwyr.

Ychwanegodd y Prif Archwilydd Mewnol y cafodd y Cynllun gwaith Blynyddol Drafft sy'n Seiliedig ar Risg ei ffurfio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau fel sy'n gynwysedig yn y PSIAS. Ychwanegodd ymhellach, er mwyn rhoi'r wybodaeth lawn i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio,  a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ar gyfer Archwiliad Mewnol, cafodd y Cynllun drafft manwl ei atodi i'r adroddiad ar atodiad B.

Wedyn cyfeiriodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Aelodau at yr archwiliadau a gafodd eu cynnal rhwng y cyfnod uchod yng gwasanaethau gwahanol y Cyfarwyddiaethau a nodwyd felly, ac wedyn gan gyfeirio yn ôl i Atodiad A, soniodd am yr archwiliadau hynny a nododd rhywfaint o Wendidau sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol, i'r graddau na ellid darparu unrhyw sicrwydd ar yr amgylchedd rheoli mewnol yn gyffredinol.   Roedd hyn wedi arwain at waith gyda'r Pwyllgor Elusennau yn dod i ben hyd nes i gyfarfod gael ei drefnu rhwng y Pwyllgor a Phrif Weithredwr y Cyngor ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Ychwanegodd y Prif Archwilydd Mewnol ymhellach, y prif bryder oedd trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Elusennau a oedd yn hynod wan.

Roedd yr ail archwiliad o'i fath a roddodd sicrwydd cyfyngedig yn unig ar waith o ran Gwireddu Grantiau SWTRA, a chyfeiriodd y Prif Archwilydd Mewnol at dudalen 89 yr adroddiad, lle y cafodd tri mater allweddol eu hamlygu i fynd i'r afael â nhw, ac ymhelaethodd ar y rhain er budd yr Aelodau.

Wedyn cyfeiriodd y Prif Archwilydd Mewnol at yr archwiliad ar yr Asiantaeth Ysgolion yr ymgymerwyd ag ef ym mis Ebrill 2016 gyda gwaith dilynol ym mis Mehefin 2017, â'r ddau wedi arwain at gyhoeddi adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig.    Gan fod risgiau posibl yn codi o ganlyniad yr archwiliadau hyn, ymgymerwyd ag adolygiad, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a gytunwyd gan y rheolwyr wedi'u gweithredu mewn ymdrech i leihau'r risgiau hyn. Cafodd y rhain eu hamlinellu yn adran hon yr adroddiad.

Aeth ymlaen drwy gadarnhau bod yr adolygiad dilynol cyfredol yn cadarnhau bod nifer o argymhellion yn weddill, gan nodi'r meysydd pryder canlynol:-

- Defnydd isel ar y darparwyr cymeradwy, sef New Directions
- Dim monitro o wariant/defnydd ar lefel ganolog
- Dim sicrwydd o gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Contract mewn perthynas â chaffael
- Dim sicrwydd o'r gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal gan yr asiantaethau

Wedyn, gwahoddwyd y Pennaeth Addysg a Rheolwr y Grŵp Gwella Ysgolion i'r cyfarfod er mwyn rhoi esboniad o pa gamau gweithredu oedd yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd pryder uchod.

Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, er bod Cytundeb Fframwaith ar waith, yn argymell bod y darparwr cymeradwy sef New Directions yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion er mwyn recriwtio staff ayyb, nid oedd y cwmni yn cael ei ddefnyddio gan bob ysgol, ac ymhellach i hynny, nid oedd gallu i ofyn i ysgolion ddefnyddio'r cwmni at y diben hwn, felly yn aml byddent yn mynd ar ôl hyn trwy ddulliau eraill.

Roedd hyn yn arwain at broblemau, er enghraifft wrth fonitro gwariant ysgolion uwchradd ar hysbysebu am recriwtio staff addysgu ac asiantaeth.

Hefyd, ychwanegodd, bu problem trwy beidio â defnyddio'r darparwr cymeradwy hwn, sef bod llai o reolaeth dros wiriadau iechyd a diogelwch o staff newydd posibl pe bai unrhyw ysgol yn recriwtio trwy ddarparwr gwahanol.

Y rheswm yr oedd ysgolion yn ei roi dros beidio New Directions oedd nad oedd y darparwr hwn bob amser darparu staff o fewn rhai meysydd arbenigol penodol. Felly dosbarthwyd profforma i bob ysgol, yn gofyn iddynt roi rhesymau manwl dros beidio â defnyddio'r sefydliad cymeradwy hwn at ddibenion recriwtio.

Cyfarwyddwyd yn llawlyfr a Rhaglen Sefydlu y Penaethiaid, y dylid defnyddio New Directions a'u bod yn cael eu herio i ddilyn y gyfarwyddeb hon.

Gofynnodd y Cadeirydd pa ganran o staff asiantaeth oedd yn cael eu darparu gan y darparwr o ddewis hwn, gan ychwanegu ei phryderon nad oedd unrhyw beth wedi cael ei roi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd fel rhan o'r archwiliad cyntaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2016.

Dywedodd Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod mater oedd yn ymddangos yn broblematig, sef y dylai pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ddefnyddio New Directions o dan drefniant caffael y cytunwyd arno. Nid oedd nifer sylweddol o ysgolion, fodd bynnag, yn cydymffurfio â'r trefniant hwn.

Ychwanegodd bo dim ond 10% o'r holl staff ysgolion a oedd yn cael eu cyflogi a oedd yn cael eu recriwtio trwy'r darparwr y cytunwyd arno, ac mae ysgolion yn dewis defnyddio darparwr lleol gwell neu recriwtio trwy ddulliau llafar gwlad.

Dywedodd y Cadeirydd eto os na fyddai'r sefyllfa yn newid yn y dyfodol, yn anochel byddai hyn arwain at ddosbarthu rhagor o adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig yn y dyfodol a oedd yn ymddangos i fod braidd yn ffôl.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw fuddion sylweddol o ganlyniad i ysgolion yn defnyddio'r darparwr hwn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Chymorth i'r Teulu mai'r prif fudd oedd bod New Directions, fel mater o arfer, yn ymgymryd â'r holl wiriadau diogelwch sy'n ofynnol ar gyflogwyr posibl, a ni ellid gwarantu y câi hyn ei wneud gan asiantaethau recriwtio llai eraill. Ychwanegodd fod ysgolion a oedd yn defnyddio'r asiantaeth hon wedi'u hindemnio'r llwyr. Ychwanegodd fod dim anfantais ariannol fodd bynnag, pe bai ysgolion yn defnyddio darparwr gwahanol i New Directions at ddibenion recriwtio.

Roedd Aelod yn ymwybodol bod New Directions hefyd wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac felly yn aml byddai ysgolion yn dymuno defnyddio darparwyr mwy lleol er mwyn recriwtio staff.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 ei  fod yn anodd newid i ddarparwyr gwahanol yn hytrach na New Directions, oherwydd y ffaith y cafodd yr asiantaeth ei sicrhau trwy Gytundeb Caffael Cenedlaethol, a chafodd pob un o'r 22 awdurdod lleol eu contractio i ddefnyddio'r asiantaeth er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion posibl. Roedd yn teimlo bod angen adolygu telerau'r Contract sydd ar waith ar hyn o bryd.

Wedyn amlinellodd y Prif Archwilydd Mewnol rai o bwyntiau allweddol Gwasanaeth Archwilio Mewnol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro: Adroddiad ar Alldro a Barn Flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol – mis Ebrill 2017 tan fis Mawrth 2018 (Atodiad A i'r adroddiad).

Ychwanegodd fod prosesu'r holl waith a gynlluniwyd yn mynd yn fwyfwy anodd ei gyflawni, o ystyried y problemau cyfredol a brofwyd am gyfnod sylweddol yn yr Adran Archwilio Mewnol gyda recriwtio a chadw staff wedyn, ac roedd yr un cyntaf yn arbennig o anodd ei gyflawni. Yn y bôn felly, roedd yr Adran yn gweithredu gyda chyflenwad staff wedi'i leihau'n sylweddol a oedd yn dangos ychydig iawn o arwyddion o wella.

Pe bai'r ymarfer recriwtio diweddar ar gyfer staff yn aflwyddiannus, byddai hi'n disgwyl i gymorth parhaus i'w roi i Ben-y-bont ar Ogwr o'r bartneriaeth ar y cyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

PENDERFYNWYD: Bod Aelodau'n ystyried Adroddiad Alldro Archwilio Mewnol sy'n ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben fis Mawrth 2018, gan gynnwys Pennaeth Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio, er mwyn sicrhau bod pob agwedda ar ei swyddogaethau craidd yn cael ei hadrodd yn ddigonol.

52. SIARTER GWASANAETH A RENNIR ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad, a gyflwynodd i Aelodau Siartrer Gwasanaeth a Rennir Archwilio Mewnol y Cyngor ar gyfer 2018/19.

Dywedodd wrth Aelodau, ar 1 Ebrill 2013, daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym a disodlodd Cod Ymarfer i Archwilwyr Mewnol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifreg (CIPFA).

Un o'r rolau allweddol a ddangosodd amryfusedd y Pwyllgor Archwilio yw cymeradwy'r Siarter Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd ar gyfer y cyfnod 2013/14 yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2013.

Parhaodd trwy ddweud bod y PSIAS yn gofyn i Bennaeth Archwilio i adolygu'r Siarter yn achlysurol, er bod y gymeradwyaeth derfynol yn aros gyda'r Pwyllgor Archwilio. Roedd Siarter Gwasanaeth ar Rennir Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A. Cafodd ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu gofynion y PSIAS.

Gan gyfeirio at y Siarter a ddiweddarwyd, dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y newidiadau ar dudalennau 107, (gydag ychwanegiad y baragraff olaf ond un a'r pwyntiau bwled); tudalen 108 pan oedd yr Amcanion Sefydliadol blaenorol bellach yn Amcanion y Cyngor, tudalen 109 lle y cafodd paragraffau 1.10 trwodd i 1.17 yn gynhwysol eu hychwanegu. Yn olaf, bu hefyd newid o ran paragraff 3.6 ar dudalen 115, lle y datganodd bellach fod rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol feddu ar gymhwyster proffesiynol, wedi'i ddiffinio fel CCAB, CMIIA neu aelodaeth broffesiynol gyfwerth a glynu at werthoedd proffesiynol a'r Cod Moeseg ayyb.

PENDERFYNWYD: Bod Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo Siarter Gwasanaethau a Rennir Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 fel yr atodir i'r adroddiad yn Atodiad A.

53. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL SY'N SEILIEDIG AR RISG MIS EBRILL 2018 TAN FIS MAWRTH 2019

Amlinellodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad, a gyflwynodd i'r Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Blynyddol y Cyngor sy'n seiliedig ar Risg am y flwyddyn o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019.

Esboniodd y caiff gofynion adnoddau eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses cynllunio archwilio a'u trafod gyda Bwrdd Gwasanaethau a Rennir Archwilio Mewnol (IASSB).

Dywedodd ymhellach, yn dilyn ailstrwythuro staff yn 2017/18, seiliwyd y sefydliad presennol ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar 14 o staff gyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dylai Aelodau nodi bod yr Adran yn cario tua 50% o ran swyddi gwag. Wrth ystyried hyn, esboniodd y Prif Archwilydd Mewnol ei fod yn bwysig bod yn gall wrth geisio pennu nifer y diwrnodau cynhyrchio a allai gael eu cyflawni'n realistig ar gyfer 2018/19.

Felly roedd y canlynol yn dybiaethau a gafodd eu gwneud ar gyfer 2018/19:-

1. Chwarter 1 a 2 – Mae'r statws yn parhau yr un peth ar gapasiti o 50%;

2. Chwarter 3 a 4 – Bydd statws yn cynyddu i uchafswm o gapasiti o 70%

Ychwanegodd y Prif Archwilydd Mewnol, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg adnoddau, rhagwelir unwaith eto y byddai gwasanaethau Partneriaeth Archwilio'r de-Orllewin yn cael eu comisiynu i helpu i gynorthwyo gyda chymryd unrhyw ddiffyg gwaith a gynllunnir ond nad ymgymerwyd ag ef wedi hynny.

Ynghyd â materion eraill megis cynlluniau am ymestyn y Gwasaneth Archwilio Mewnol a Rennir, gyda'r cynllun arfaethedig a ddarparwyd am hyd at 1,000 o ddiwrnodau cynhyrchiol yn cael eu cyflwyno yn ystod 2018/19

Cyfeiriodd y Pwyllgor i Atodiad A yr adroddiad a oedd yn cynnwys y ddogfen Strategaeth Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2018/19. Câi'r Strategaeth ei hadolygu a'i diweddaru bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, ychwanegodd.

Cafodd y Cynllun gwaith Blynyddol Drafft sy'n Seiliedig ar Risg 2018/19 ei ffurfio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau fel sy'n gynwysedig yn y PSIAS. Er mwyn rhoi'r wybodaeth lawn i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ar gyfer Archwiliad Mewnol, cafodd y Cynllun drafft manwl ei atodi i'r adroddiad ar atodiad B.

Roedd Aelod o'r farn, oherwydd y problemau parhaus ynglŷn â recriwtio Archwilwyr, y byddai rhoi gwaith archwilio yn y dyfodol yn cael ei wneud ar ddull sy'n seiliedig ar risg, h.y. po uchaf lefel y risg y gwasanaeth sy'n cael ei archwilio y fwyaf o flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r maes hwn yn cael ei archwilio.

Ychwanegodd Aelod y dylai meysydd risg yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n rheolaidd o ystyried y diffyg o ran lefelau staff, ynghyd â'r broblem o ran recriwtio a/neu gadw staff archwilio.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

(1) Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol drafft a'r Cynllun Archwilio Blynyddol sy'n seiliedig ar Risg ar gyfer 2018/19.

(2) Bod Aelodau'n dymuno i'w pryderon gael ei roi ar cofnod o ran yr anhawster wrth recriwtio a/neu gadw staff archwilio gyda chymwysterau proffesiynol.

54. RHAGLEN WAITH BLAEN A DDIWEDDARWYD 2017/18 A RHAGLEN WAITH BLAEN ARFAETHEDIG AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad, a ategodd yn Atodiadau A a B, yr Atodlen ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor a Rhaglenni Gwaith Blaen ar gyfer 2017/18 (diweddarwyd) a 2018/19 (arfaethedig), yn ôl eu trefn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn ystyried, yn nodi ac yn derbyn y Rhaglenni Gwaith Blaen a ddiweddarwyd ar gyfer yr cyfnodau uchod.

55. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00